COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 20FED MEHEFIN 2017 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Maer, Y Cynghorydd J. Pearson (& Warden Coed)
Cynghorydd Mrs G. Baker, (Is-Gadeirydd)
Cynghorwyr B. Barton, Mrs M. Jones, S. Williams, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs T. Earley, Clerc y Dref

57/17 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cadeirydd, y Cynghorydd N. Bastow, a'r Cynghorwyr C. Brockley, G. Campbell, C. Matthews, M. Tasker a D. Bradley a gafodd ei gyfethol ar 12fed Mehefin i lenwi'r sedd wag yn Ward Colwyn.

58/17 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

59/17 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 30ain Mai 2017 a'u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.

60/17 Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:

(a) Cofnod 35/17 - Llwyfan Band Arfaethedig Rhos:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, ymateb Cyngor Tref Llandudno ynglŷn â chynnal a chadw'r llwyfan band yn y Fach, Llandudno. Fe nodwyd nad oedd y costau o gynnal a chadw yn hysbys ac fe dybier bod y costau yn dod allan o'r taliad a wneir pob blwyddyn gan y Cyngor Tref tuag at gynnal a chadw tiroedd.

Dywedodd y Cynghorydd Baker wrth y Pwyllgor y buasai'n cyflwyno diweddariad pellach ar y cynnig yn dilyn cyfarfodydd gyda'r Harbwr Feistr a'r Cynghorydd Sir, Roger Parry'r wythnos nesaf ac yna gyda Thâp Cerddoriaeth a Ffilm (parthed cymorth ar sut i wneud cais am gyllid).

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth a'r diweddariad.

(b) Cofnod 39/17 - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol (CFfDL):

i Rhoddodd y Cynghorydd J. Pearson adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod diweddar a drefnwyd gan CFfDL i egluro'r adolygiad etholiadol sydd ar ddod yng Nghonwy. Fe nodwyd nad oedd yn fwriad i newid wardiau cynghorau cymuned, ac mai'r Sir yn unig oedd i'w adolygu. Yn dilyn y cyfnod ymgynghorol dechreuol presennol (a ddaw i ben yn Awst), fe gyhoeddir cynigion cychwynnol yn y Gwanwyn

2018 a'r cynigion terfynol yn y Gaeaf 2018, i'w gweithredu ar gyfer etholiadau 2022.

ii Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a oeddynt yn dymuno cyflwyno unrhyw sylwadau neu argymhellion cychwynnol i CFfDL ar yr adolygiad. Oherwydd nad oedd yn fwriad i newid ffiniau Cynghorau Cymuned, awgrymodd y Clerc y dylid disgwyl am y cynigion drafft cychwynnol ac ymateb ar yr adeg hynny.

Mynegwyd pryder na chafodd ardaloedd cefn gwlad mewn rhai mannau o Gymru eu hystyried yn yr adolygiad diwethaf o'r fath (yn Wrecsam). Dywedodd y Clerc bod CFfDL wedi cyhoeddi dau bapur yn amlinellu sut oedd yr arolwg am gael ei weithredu. Roedd un ohonynt yn edrych ar ba ganran o'r boblogaeth oedd yn byw y tu allan i aneddiadau o 10,000 neu fwy o bobl, er mwyn i ardaloedd cefn gwald cael eu hystyried.

Gofynnwyd a ddylai'r Cyngor Tref manteisio ar y cyfle hwn i gywiro unrhyw anghysonderau mewn rhai wardiau cynghorau cymuned, megis nad yw Parc Eirias o fewn Ward Eirias. Mynegodd rhai Aelodau eu pryderon bod yna gymaint o anghysonderau a bod ffiniau hanesyddol yn cael eu defnyddio. Mi fyddai'n anodd iawn ac yn drafferthus i gywiro pob un ohonynt.

Penderfynwyd bod y Clerc i ddosbarthu'r papurau a dderbyniwyd gan CFfDL ac egluro gweithdrefnau'r adolygiad, ag i unrhyw Aelod sy'n dymuno gwneud unrhyw newidiadau eu hanfon yn ysgrifenedig at y Clerc i gael eu hystyried gan y Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

(c) Cofnod 397/16 - Gwytnwch Cymunedol:

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost a dogfennaeth ddilynol i'w ystyried oddi wrth Eilwen yn dilyn ei chyflwyniad i'r Cyngor ar 12fed Mehefin. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ddylai'r Cyngor Tref cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn ag arwain y datblygiad o Gynllun Brys Cymunedol ar gyfer ardal Bae Colwyn. Fe nodwyd byddai Eilwen a thîm Cynllunio Brys Gogledd Cymru yna i gefnogi ond byddai'n rhaid i'r Cyngor Tref cymryd yr arweiniad oherwydd ei wybodaeth leol a'r angen i ddod a phobl / mudiadau perthnasol at ei gilydd i ddatblygu'r cynllun.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn cytuno i arwain y datblygiad o Gynllun Brys Cymunedol a bod gwahoddiad yn cael ei anfon at fudiadau lleol perthnasol, yn cynnwys ysgolion, eglwysi, cymdeithasau tai ayb, i gyfarfod cychwynnol o grŵp llywio dan lywyddiaeth Eilwen.

Fe benderfynwyd ymhellach argymell y Cyngor Tref i benodi un aelod o bob ward i'w cynrychioli ar y grŵp llywio.

(ch) Cofnod 41/17(a) - Ceisiadau Cynllunio a Gafodd eu Hystyried ar 30ain Mai:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, copi diwygiedig o Atodiad 'A' ar gyfer o'r 30ain Mai, yn dilyn gwrthwynebiad i gais a gytunwyd gan y Cyngor ar 12fed Mehefin.

61/17 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC:

a. Rheoliad Traffig Dros Dro - Ffordd Gefn Ffordd Bay View: Hysbysiad o waharddiad traffig dros dro o gyffordd Ffordd Sea View i Ffordd Greenfield ar 27/6/17

b Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Swyddogion Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 12fed Mehefin 2017. Fe nodwyd mai prif amcan y cyfarfod oedd paratoi am gyfarfod y Bwrdd Rheoli Strategaeth (BRhS) oedd i'w gynnal ar ddiwedd Mehefin (cafodd ei ohirio). Dyna pryd oedd angen cymeradwyo adroddiad 'diwedd y cam' ar raglen Adfywio Llywodraeth Cymru - VVP (Vibrant and Viable Places) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Hysbyswyd y cyfarfod bod holl Fyrddau Prosiect CBSC yn cael eu hadolygu a byddai unrhyw newidiadau a fwriedir yn cael eu trafod gan y BRhS. Tra bod Byw yn y Bae a VVP yn canolbwyntio yn bennaf ar adnewyddiad corfforol, fe nodwyd bod angen i alinio hwn yn agosach at agenda Ymdrin â Thlodi ac i ymglymu'r gymuned leol wrth symud ymlaen.

c. Prosiect Lan y Môr - Diweddariad Mai: Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod y Promenâd i fod i ail-agor ar ddiwedd Gorffennaf fan bellaf. Roedd hyn ychydig yn ddiweddarach na'r hyn a fwriadwyd ond roedd popeth yn cael ei wneud i geisio lleihau unrhyw effaith niweidiol yn ystod gwyliau'r ysgol.

ch Fe nodwyd na dderbyniwyd, hyd yn hyn, adroddiad gan y ddau Gynghorydd Sir a wahoddwyd i gyfarfod y Panel Ymgynghori ar Ardaloedd Cadwraeth a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin i ystyried cais GBSC i ddymchwel rhan o'r Pier. Dywedodd y Clerc na fu'n bosibl iddi fod yn bresennol oherwydd hysbysiad hwyr am y cyfarfod ar ôl iddi ddychwelyd o'i gwyliau. Cysylltodd un aelod gyda'r Panel i ofyn a fyddai'n bosibl iddo fod yn bresennol ond dywedwyd wrtho na fyddai hyn yn bosibl. Cadarnhaodd y Clerc iddi gael gwahoddiad fel Swyddog y Cyngor Tref.

Penderfynwyd dod ag unrhyw adroddiad i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.

62/17 <u>Clwb Rygbi Gogledd Cymru (RGC) 1404:</u>

Cyflwynodd y Clerc cynnig ysgrifenedig gan y Cynghorydd Bob Barton yn gofyn i Is-Bwyllgor neu Weithgor cael ei sefydlu i ystyried sut y gellir cydnabod llwyddiannau diweddar Glwb Rygbi RGC 1404. Anerchwyd yr aelodau gan y Cynghorydd Barton am ei gynnig, sef i gydnabod yn ffurfiol llwyddiannau'r tîm ac i ddiolch i'r chwaraewyr ag URC am bopeth a wnaethant i roi Bae Colwyn ar y map. Efallai y gellir cynnal digwyddiad neu dwrnamaint cyn i'r tymor ddechrau, ond byddai gweithgor bach yn gallu edrych i mewn i hyn a chyfleoedd eraill er mwyn creu perthynas hirdymor gyda'r Clwb. Byddai'r Gweithgor yn adrodd i gyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau, yn hanesyddol, byddai'r Cyngor yn cydnabod y fath lwyddiannau trwy anfon llythyr llongyfarch gan y Maer ar ran y Cyngor a'r gymuned y mae'n ei gynrychioli.

Fe nodwyd ymhellach bod un o'r Cynghorwyr Sir leol wedi datgan mai tîm rhanbarthol Gogledd Cymru oedd hon (mae gennym hefyd Clwb Rygbi Bae Colwyn) a byddai cydnabyddiaeth ffurfiol o'i lwyddiannau yn y modd a awgrymwyd y tu allan i gylch gwaith y Cyngor Tref. Mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan GBSC fel partner URC wrth greu RGC 1404.

Gofynnwyd i'r Aelodau pleidleisio ar y cynnig i greu gweithgor i ystyried dulliau i gydnabod llwyddiannau RGC 1404. Ni lwyddodd y cynnig.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon llythyr ar ran y Maer a'r Cyngor i longyfarch y tîm.

Dywedodd y Cynghorydd Barton wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu siarad gyda chynrychiolwyr o URC ac fe ddaw a'r mater yn ôl i'r Cyngor os ddaw cyfle i ddatblygu perthynas agosach rhwng RGC 1404 a'r dref.

63/17 <u>CVSC - Chwarae Allan 2017:</u>

Cyflwynodd y Clerc diweddariad am y ddarpariaeth o gyfleodd i chwarae yn ystod gwyliau haf 2017. Rhoddodd manylion am y dyddiadau, amseroedd a lleoliadau chwarae haf a gyllidwyd gan y Cyngor hwn..

Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth hwn.

64/17 <u>Gardd y Dywysoges Diana, Llandrillo yn Rhos:</u>

Cyflwynodd y Clerc llythyr gan breswylydd lleol yn datgan pryder am y diffyg cynnal a chadw'r ardd. Fe nodwyd i ymholiadau dangos bod y contractwr wedi cael profedigaeth ac nad oedd bellach yn gallu gwneud unrhyw waith ar y gerddi. Roedd y Clerc, ynghyd a'r preswylydd lleol, yn y broses o geisio amcan brisiau i alluogi'r Pwyllgor i benodi contractwr newydd.

Penderfynwyd :

a. Gofyn i staff Parciau CBSC a fyddent yn fodlon / gallu cynnal un ymweliad i docio a thacluso'r gerddi mor fuan ag sy'n bosibl.

b. Gofyn i'r Clerc ddod a'r amcan brisiau gan gontractwyr lleol i ymweld â'r gerddi yn rheolaidd (pob mis) i wneud gwaith cynnal a chadw i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn, oni bai nad yw GBSC yn gallu helpu efo (a) uchod, neu fel arall fe roddir awdurdod dirprwyol i'r Clerc, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i benodi contractwr.

65/17 <u>Seafarers DU</u>

Cyflwynodd y Clerc gwybodaeth, ynghyd a chais i'w ystyried, i'r Lluman Coch cael ei gyhwfan ar Ddiwrnod y Lleng Masnachol (dydd Sul 3ydd Medi). Fe nodwyd nad yw staff y Parciau sy'n cynorthwyo gyda'r baneri yng Ngerddi'r Frenhines, yn gweithio ar benwythnos.

Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen i'r Lleng Prydeinig lleol a gofyn a fyddant efo diddordeb i drefnu digwyddiad cymdeithasol bach i gydnabod Diwrnod y Lleng Masnachol.

66/17 <u>Gohebiaeth Arall:</u>

Nid oedd gan y Clerc unrhyw eitemau eraill o ohebiaeth

67/17 <u>Cynllunio</u>:

a. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed yn ddiweddar gan GBSC.***

c. Rhoddodd y Clerc a'r Cynghorydd Merrill Jones adroddiad byr ar lafar am y Gwrandawiad Apêl a gynhaliwyd ar 14.6.17 parthed cais O/43453 (Ardmore, Ffordd Hesketh). Fe nodwyd bydd yr Archwilydd Cynllunio yn cymryd nifer o wythnosau i gyflwyno ei hadroddiad a'i phenderfyniad.

ch. Fe nodwyd bod Cais Cynllunio O/43854 wedi cael ei dynnu'n ôl.

d. Fe nodwyd bod apeliadau wedi cael eu cyflwyno parthed Ceisiadau Cynllunio O/43849 - Penrhos Manor ag O/43711 - 21 Ffordd Llewelyn, Bae Colwyn.

Hysbyswyd yr aelodau nad oedd y Pwyllgor wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiad i gais O/43711 - sef trosi un annedd i fod yn 6 ystafell HMO.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon sylwadau i'r Archwilydd Cynllunio yn cadarnhau bod y Cyngor Tref yn cefnogi penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod y cais hwn am HMO newydd, am fod hyn yn groes i bolisi'r Cynllun Datblygu Lleol i gyfyngu ar ganiatáu unrhyw HMO newydd oherwydd y difrod a wnaed yn hanesyddol i fwynderau preswyl yr ardal.

68/17 <u>Trwyddedau:</u>

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, hysbysiad am nifer o geisiadau diweddar am drwyddedau ar gyfer ardal Bae Colwyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi manylion y ceisiadau am drwyddedau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50 pm

…… Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 20TH JUNE 2017, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: The Mayor, Cllr J Pearson (& Tree Warden)
Cllr G Baker, Vice-Chairman
Cllrs: B Barton; Mrs M Jones; S Williams; M Worth

57/17 Apologies for Absence

Apologies for absence were received from the Chairman, Cllr N Bastow, and from Cllrs: C Brockley; G Campbell; C Matthews; M Tasker and D Bradley, who was co-opted on 12th June to fill the vacancy in Colwyn Ward.

58/17 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

59/17 Minutes:

Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 30th May 2017.

60/17 Matters Arising from Previous Minutes:

a. Min. 35/17 – Proposed Rhos Bandstand:

The Clerk submitted, for information, a response from Llandudno Town Council regarding maintenance of their band stand in the Happy Valley. It was noted that the actual costs of maintenance are not known and are presumed to be deducted from the payment made annually by the Town Council towards grounds maintenance.

Cllr Baker advised the Committee that she will give a further update on the proposal after meetings with the Harbour Master and County Councillor Roger Parry next week and then with Tape Music and Film (re: assistance in applying for grant funding).

Resolved to receive and note the correspondence and update.

b. Min 39/17 – Local Democracy and Boundary Commission:

i. Cllr J Pearson gave a brief verbal report on the recent meeting arranged by the LDBC to explain the forthcoming electoral review in Conwy. It was noted that no changes were proposed to community council wards, as only the County was under review. Following the current initial consultation period (ending in August), initial proposals will be

published in Spring 2018 and final proposals in Winter 2018, for implementation at the 2022 elections.

ii. Members were asked to consider if they wished to submit any initial observations or recommendations to the LDBC on the review. As there were no changes proposed to Community Council boundaries, the Clerk advised members that they could await the initial draft proposals and respond at that stage.

Concern was expressed that the last such review (in Wrexham) did not take into account the rurality of some parts of Wales. The Clerk informed members that the LDBC had published two papers outlining how the review would be carried out, one of which looked at what percentage of the population lived outside of settlements of 10,000 or more people, in order to take rurality into consideration.

It was queried whether the Town Council should use this as an opportunity to rectify any anomalies in community council ward areas, such as Eirias Park not being in Eirias Ward. Some Members expressed concern that there were many anomalies and historic boundaries were used. It would be very difficult and disruptive to rectify all of these.

Resolved that the Clerk would circulate the papers issued by the LDBC explaining he procedures for the review and that any member wishing to proposed changes should submit these in writing to the Clerk for consideration at a future meeting of this Committee.

c. Min. 397/16 - Community Resilience:

The Clerk submitted, for consideration, a follow-up e-mail and documentation received from Eilwen since her presentation to the Council on 12th June. Members were asked to consider if the Town Council should participate in this pilot project and lead on the development of a Community Emergency Plan for the Bay of Colwyn area. It was noted that the process would be supported by Eilwen and the NW Emergency Planning team, but that the Town Council would be required to be the lead body due to its local knowledge and the need to bring the relevant people/organisations together in the process of developing the plan.

Resolved to recommend that the Council agrees to act as the lead body on the development of a Community Emergency Plan and that an invitation is sent to relevant local bodies, including schools, churches, housing association, etc to an introductory steering group meeting, to be led by Eilwen.

Further resolved to recommend that the Town Council appoints one member from each ward to represent it on the steering group.

d. Min 41/17(a) – Planning Applications Considered on 30th May:

The Clerk submitted, for information, a copy of the revised Schedule 'A' for 30th May, following an objection to an application agreed by the Council at its meeting on 12th June.

61/17 <u>Conwy CBC</u>:

The Clerk submitted the following correspondence from CCBC:

a. Temporary Traffic regulation –Back Bay View Road:
Notification of a temporary traffic restriction from the junction of Sea View Road to Greenfield Road on 27/6/17.

b. The Clerk gave a brief verbal report from the Bay Life Officers Meeting held on 12th June 2017. It was noted that the main purpose of the meeting had been to prepare for the Strategic Management Board (SMB) meeting scheduled for the end of June (now postponed), where an 'end of stage' report on the VVP (Vibrant and Viable Places Welsh Govermnent Regeneration) programme was required to be approved for submission to the Welsh Government. The meeting had been advised that all CCBC Project Boards were under review and any changes proposed to the Bay Life Board would be discussed at a future SMB meeting. Whereas Bay Life and VVP has focussed mainly on physical regeneration, it was noted that there was a need to align this more closely with the Tackling Poverty agenda and to involve the local community more going forward.

c. Waterfront Project – May update: The Clerk informed members that the Promenade is due to re-open by the end of July at latest, which is slightly later than scheduled, but that everything possible was being done to try to reduce impact during the school holidays.

d. It was noted that no report had been received to date from the two County Councillors, who had been invited to the Conservation Area Advisory Panel meeting held on 14th June to consider the application by CCBC to partially dismantle the Pier. The Clerk advised members that she had been unable to attend, due to late notice of the meeting after her return from leave. One member had contacted the Panel to ask if he could attend, but had been advised that this was not possible. The Clerk confirmed that she had been invited as an Officer of the Town Council.

Resolved to bring any report to a future meeting of this Committee.

62/17 <u>RGC 1404:</u>

The Clerk submitted a written proposal from Cllr Bob Barton requesting that a sub-committee or working group be appointed to consider how to recognise the recent achievements of the RGC 1404 Rugby Club. Cllr Barton addressed members about his proposal, which was to formally recognise the achievements of the team and thank the players and the WRU for all they have done to put Colwyn Bay on the map. This could possibly be by way of a pre-season event or tournament, but a small working group could look into this and other opportunities to form a long-term relationship with the Club and report

back to a future meeting.

The Clerk advised members that, historically, achievements such as this had been recognised by the Council simply by way of a letter of congratulations from the Mayor on behalf of the Council and the community it represents.

It was further noted that one of the local County Councillors had expressed concern that this was a North Wales regional team (we also have a Colwyn Bay Rugby Club) and that formal recognition of its achievements in the manner suggested was therefore outside of the remit of the town council and is currently being considered by CCBC, as a partner to the WRU in setting up RGC 1404.

Members were asked to vote on the proposal to set up a working group to consider ways in which the achievements of RGC 1404 could be recognised. The motion was not carried.

Resolved to request that the Clerk sends a letter of congratulations to the team on behalf of the Mayor and Council.

Cllr Barton informed the Committee that he intends to speak to representative(s) from the WRU and will bring this matter back to the Council should an opportunity arise for developing a closer relationship between RGC 1404 and the town.

63/17 CVSC – Playing Out 2017:

The Clerk submitted an update on the summer holiday play provision for 2017, detailing the proposed dates, times and venues for the summer play provision funded by this Council.

Resolved to receive and note this information.

64/17 Princess Diana Garden, Rhos on Sea:

The Clerk submitted a letter of concern from a local resident about the lack of maintenance of the garden. It was noted that enquiries had subsequently revealed that the contractor had suffered bereavement and was no longer able to do any work on the gardens. The Clerk, with the assistance of the local resident, was in the process of seeking quotes to enable the committee to appoint a new contractor.

Resolved to:

a. ***Ask CCBC Patks staff if they would be willing/able to do a one-off visit to prune and tidy up the garden as soon as possible.***
b. ***Request that the Clerk brings quotes from local contractors for regular (monthly) maintenance visits to the next meeting of the Committee, unless CCBC is unable to assist with (a) above, in which case authority is delegated to the Clerk, Chair and Vice-Chair to appoint a contractor.***

65/17 Seafarers UK:

The Clerk submitted, for consideration, information and a request to fly the Red Ensign for Merchant Navy Day (Sunday 3rd September). It was noted that the Parks staff who assist with the flags in Queens Gardens do not work at

weekends.

Resolved to forward information to the local British Legion and ask if they would be interested in organising a small scale event to recognise Merchant Navy Day.

66/17 Other Correspondence:

The Clerk had no other items of correspondence to report.

67/17 Planning:

a. The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule 'A' attached.

b. ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions recently issued by CCBC***

c. The Clerk and Cllr Merrill Jones gave a brief verbal report on the Appeal Hearing held on 14.6.17 in respect of application 0/43453 (Ardmore, Hesketh Rd). It was noted that the Planning Inspector would take several weeks to issue her report and decision.

d. It was noted that application 0/43854 has been withdrawn.

e. It was noted that appeals had been submitted in respect of application 0/43849 (Penrhos Manor) and 0/43711 (Llewelyn Road).

Members were informed that the Committee had not previously submitted any objections to 0/43711, which was to convert a single dwelling into a six bedroomed HMO.

Resolved to request that the Clerk submits comments to the Planning Inspector to confirm that the Town Council supports the decision of the Local Planning Authority in refusing this application for a new HMO, as this is contrary to the policy in the LDP restricting permission for any new HMOs, due to the damage they have caused historically to the residential amenity of the area.

68/17 Licensing:

The Clerk submitted, for information, notice of several recent licensing applications for the Bay of Colwyn area.

Resolved to receive and note details of the recent licensing applications.

The Meeting Closed at 7:50 p.m.

…… Chairman